



Rhif: 26

Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:

Dyfroedd arfordirol Sgogwm a Gateholm



ACM26: Dyfroedd Arfordirol Sgogwm a Gateholm



Edrych tua'r gogledd at Sgogwm (chwith) a Phenrhyn y Santes Ann (dde) o 2km i'r DDe o Sgogwm, 3.5km o'r lan.



Edrych tua'r dwyrain at Sgogwm (chwith) a phenrhyn Marloes



Sgogwm o'r awyr (©Sid Howells)

Disgrifiad Cryno

Mae'r ardal hon yn cynnwys ynys bellennig Sgogwm, ynys arfordirol Gateholm a'r arfordir danheddus, creigiog sy'n erydu ac yn wynebu'r de-orllewin a hanner gorllewinol penrhyn Dale. Mae'r haenau o dywodfaen, sy'n fertigol bron, yn ffurfio clogwyni a chraig-ffurfiadau nodedig gyda chlogwyni'n cyrraedd tua 50m o uchder. Mae gan y môr egrau a llifau llanwol cryfion ac mae'n aml yn agored i ymchwydd cryf y cefnfor yn enwedig o amgylch Penrhyn y Santes Ann. Mae penrhyn Dale yn bentir llwyfandir agored gyda phorfa a thir â'r a phatrwm cae unionlin.

Nodweddion Allweddol

- Mae Sgogwm yn ynys wyllt, anghysbell gyda chopa gwastad a chlogwyni tywodfaen. Mae'n lloches bwysig i adar ac yn safle gwarchod natur pwysig.
- Amlygiadau garw a danheddog y creigiau a chlogwyni tywodfaen uchel, a blaendraethau creigiog.
- Mae'r môr yn gynhyrfus ac yn agored iawn gyda llawer o beryglon o'r creigiau a pheryglon eraill, ac egrau, trolifau a llifau llanwol cryfion.
- Mae'r môr yn cael defnydd trwm gan gychod hwylio a phobl sy'n mynd ar deithiau dydd, gyda peth pysgota o'r môr a deifio ac ambell daith bywyd gwyllt i Sgogwm.
- Am fod Aberdaugleddau mor agos mae yna oleudy ar Sgogwm ac ar Benrhyn y Santes Ann.
- Yn bennaf, mae gorchudd y tir ar ochr orllewinol Dale yn dir â'r gyda phatrwm cae unionlin. Mae hen faes awyr segur rhwng Dale ac ardal Marloes.
- Mae Llwybr yr Arfordir yn rhedeg o amgylch ymyl clogwyni'r prif dir.
- Mae'r ardal yn agored ac yn noeth ac mae yna olygfeydd eang a phanoramig o sawl lleoliad fel Trwyn y Castell Bach a Phenrhyn y Santes Ann ar y prif dir.

Nodweddion Ffisegol

Mae ynysoedd Sgogwm (49m UDO) a Gateholm (37m udo) yn ffurfio rhan o'r Hen Dywodfaen Coch sy'n taro dwyrain-gorllewin ac yn ffurfio'r clogwyni coch o Red Cliff i Aberdaugleddau. Mae creigiau tanddwr a chreigiau sy'n cael eu dadorchuddio gan y llanw yn ymylu'r ynysoedd. Glannau creigiog yw'r ardaloedd rhynglanwol yn bennaf (94%) gyda chindraethau tywodlyd bach. Mae erydiad y gwynt a'r tonnau'n gweithredu trwy sgrafelliad, athreuliad a symudiadau hydrologig. Mae'r prif dir yn llwyfandir sydd ychydig bach yn donnog, ac yn codi i 70m UDO, gyda chlogwyni uchel ar y naill ochr a'r llall hyd at 50m. Mae copa Sgogwm yn wastad. Mae Gateholm, gyda chlogwyni creigiog a thir pori garw uwchben, yn benrhyn tywodfaen pan fydd y dŵr yn isel.

Mae Hen Dywodfaen Coch o dan dywod graeanog gwaddodion llawr y môr. Mae yna silff gymedrol (1-10⁰) i ffwrdd oddi wrth glogwyni creigiog uchel Sgogwm, ac isel i gymedrol (<10⁰) i ffwrdd oddi wrth glogwyni'r penrhyn ar waelod bas (<30m) y môr. Mae creigiau sydd ychydig o dan y dŵr a chreigiau sy'n cael eu dadorchuddio gan y llanw yn ymylu'r arfordiroedd. Mae'r moroedd yn agored i bwysau uchel y tonnau a cherhyntau llanwol. Mae cerhyntau llanwol wedi eu gosod i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain. I'r gorllewin o Sgogwm mae yna lifau llanwol cyflym ac egrau (Eger Wildgoose) a throlifau oddi ar Gateholm y naill ochr a'r llall i ddyfroedd bas uwchlaw crib tanddwr dwyrain-orllewinol o Hen Dywodfaen Coch. Mae'r môr yn gallu dioddef amodau garw, yn enwedig gyda'r gwynt dros y llanw. Mae llif y llanw tua 4 milltir fôr ond yn gallu cyrraedd 6.5k milltir fôr. Amrediad y llanw yw ~6m.

Mae Sgomer yn warchodfa natur genedlaethol, yn AGA, SoDdGA, ardal sy'n bwysig ar gyfer adar ac mae'r dyfroedd o fewn ACA Sir Benfro Forol. Gorwedd ymylon deheuol Gwarchodfa Natur Forol Sgomer ar ymyl ogleddol yr ardal. Mae Sgogwm yn enwog fel lloches i adar gyda chytrefi pwysig o balod Manaw, adar drycin, carfilod, hebogau tramor, morloi llwyd, brain coesgoch yn bridio yma a chennau prin. Mae'r amgylchedd morol yn gyfoeth o gynefinoedd o dan y llanw a rhwng y llanw. Mae llwyfandir gwastad yr ynys a'r glaswelltir arfordirol yn cynnwys clustog Fair a'r gludlys arfor gwyn.

Mae gorchudd tir arfordir y prif dir yn tra-arglwyddiaethu gyda chaeau â'r unionlin yn rhedeg yn agos at ymylon y clogwyni. Ceir hyd i llystyfiant lled-naturiol ar ymylon clogwyni, pentiroedd ac

ynysoedd. Mae ymyl y clogwyn a Gateholm yn rhan o SoDdGA Arfordir Dale a De Marloes.

Dylanwad diwylliannol

Ynys ar y morffyrdd gorllewinol y mae ei henw Norsaidd yn egluro ei chysylltiadau gyda ffurflywodraeth y Llychlynwyr yn Scandinafia, Prydain ac Iwerddon.

Dengys Ynys Sgogwm olion o leiaf dau gyfnod o anheddiad - fwy na thebyg o'r cyfnod Canoloesol, sy'n amlwg ar ffurf gwrthgloddiau systemau cae a gwrymiau aradr a fwy na thebyg o'r 18^{fed} ganrif, sy'n amlwg yn y ffermdy. Mae yna oleudy modern ar ben gorllewinol yr ynys, a chwarel.

Dengys Ynys Gateholm olion anheddiad cylch cytiau sydd nawr yn anodd mynd ato am ei fod wedi ei wahanu wrth y prif dir gerllaw.

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE180 (anheddiad cylch cytiau): cymuned: Marloes a Sain Ffraid (yn rhannol hefyd o fewn ACM25)
- PE195 (caer bentir): cymuned: Marloes a Sain Ffraid
- PE322 (caer bentir): cymuned: Dale
- PE335 (caer): cymuned: Dale
- PE356 (caer bentir): cymuned: Dale
- PE566 (maes awyr): cymuned: Marloes a Sain Ffraid (yn rhannol hefyd o fewn ACM25 ac ACM 31)

Mae yna nifer o longdrylliadau gyda thri o amgylch Sgogwm ac un ar y prif dir sy'n awgrymu'r potensial i'r dyfroedd fod yn fradwrus ac maen nhw'n beryglus ynddynt eu hunain. Mae deifwyr wedi ymweld â'r Angelica, Burry a'r Queen ar lannau Sgogwm.

Mae enw Norsaidd yr ynys hon yn arwydd o'i chysylltiadau Llychlynaidd. Daeth Sgogwm yn enwog oherwydd y naturiaethwr Ronald Lockley, a gyhaeddodd ym 1927 i gymryd prydles am 21 mlynedd. Roedd Lockley yn un o'r bobl gyntaf i astudio bioleg bridio adar drycin, palod Manaw, palod a chwingod. Ffurfiodd ei ymchwil ar gwingod y sylfaen ar gyfer nofel Richard Adams, *Watership Down*.

Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn cynnwys Goleudy Trinity House ar Sgogwm, y mae modd ei weld o'r de-orllewin ymhell cyn Penrhyn y Santes Ann, sydd â goleudy, tyrau a man gwyllo Gwylwyr y Glannau.

Caiff y môr ddefnydd helaeth fel llwybr mordeithio arfordirol sy'n cysylltu'r Aber gyda Sgomer a phwyntiau tua'r gogledd ar draws Bae Sain Ffraid ac i'r gorllewin at Iwerddon ac mae cychod hwylio a modur yn ymweld â'r ardal ar 'daith diwrnod'. Mae Ynys Sgogwm ymhellach oddi ar y lan ac, o ganlyniad, nid yw'n denu cymaint o draffig morol â'i chymydog, Ynys Sgomer. Mae teithiau cwch bywyd gwyllt yn ymweld â Sgogwm ond nid mor rheolaidd neu mor aml â Sgomer. Mae pysgota o'r môr o gyfod yn boblogaidd o amgylch Sgogwm. Maen nhw'n deifio ar hyd arfordiroedd deheuol a gorllewinol Sgogwm ac i'r gogledd o Gateholm. Mae yna weithgarwch caiacio o amgylch Ynys Gateholm. Mae amodau'r môr i'r gorllewin o Sgogwm yn gallu bod yn heriol pan fydd y llanw a'r gwynt mewn cyflwr penodol oherwydd Eger Wildgoose.

Ar Ynys Sgogwm mae yna gilfach fechan gyda glanfa ar yr ynys i dderbyn nwyddau ac ymwelwyr sy'n gallu aros ar yr ynys. Yr Ymddiriedolaeth Natur sy'n ei rheoli. Mae traeth Westdale yn fach ond yn boblogaidd ar gyfer gweithgareddau traeth ac yn enwedig ar gyfer syrffio.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal cimwch, gwichiaid mor a chrancod mewn potiau [yn enwedig o amgylch Sgogwm] a'r potensial ar gyfer man-dreillio estyllod.

Gellir gweld cychod fferi sy'n pasio am Iwerddon o Ddoc Penfro a thanceri olew a chychod eraill sy'n cludo llwythi ar gyfer y terfynfeydd a'r orsaf bŵer yn Aberdaugleddau.

Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae Ynys Sgogwm yn ynys ynysig, wyllt ac agored iawn mewn dyfroedd agored. Mae'r clogwyni a'r glannau creigiog, yr ynysigau a'r creigiau yn ddramatig, yn goch ac yn haenog. Yn y môr, dominyddir y cymeriad gan yr egrau llanwol a'r dŵr cynhyrfus ac mae'r glannau creigiog a'r

clogwyni yn gallu teimlo'n bell. Mae yna olygfeydd eang o'r prif dir a Sgomer i'r gogledd. Mae yna arogl cryf o'r môr ac mae'n agored i'r gwynt yn y rhan fwyaf o lefydd.

Mae cefnfro'r penrhyn yn llyfn a noeth gyda choed wedi eu cyfyngu i'r cymoedd. Mae'r clogwyni tywodfaen coch yn dominyddu'r arfordir syn wynebu'r gorllewin gyda'i gymeriad agored a sŵn y tonnau'n taro mewn moroedd garw. Westdale yw'r unig draeth bach a'r unig fynediad.

Ar y cyfan, mae'n naturiol, anghysbell a heddychlon iawn mewn sawl ymyl morol ac ar yr ynnysoedd, er bod cychod sy'n dod i mewn i Aberdaugleddau i'r de a'r dwyrain yn amlwg.

Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n helaeth at wasanaethau hamdden ar ffurf gwyltio bywyd gwyllt a hamdden morol, at dreftadaeth naturiol ar ffurf yr arfordir heb ei ddifetha, gwarchodfa forol, pwysigrwydd o ran gwarchod natur a daeareg, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'r hanes amrywiol ac ymdeimlad o ofod a rhyngweithio gyda morweddau a thirweddau gwyllt.

Rhesymau dros newid

Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid						
	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnachol a physgota	Ynni'r tir mawr neu fwynau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD
<p>Erydiad arfordirol araf clogwyni creigiog. Cynllun rheoli'r traethlin: Gwneud dim byd.</p> <p>Rhaid monitro gweithgarwch ymwelwyr a'r defnydd o'r llwybr arfordirol.</p> <p>Dwysau ffermio â'r.</p> <p>Symudiadau cychod masnachol.</p>	Rhinweddau Arbennig						
	Ysblander yr Arfordir						
	Ynnysoedd						
	Amrywiaeth y Tirlun						
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch						
	Daeareg Amrywiol						
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth						
	Archeoleg Gyfoethog						
	Cymeriad Anheddiad Nodedig						
	Treftadaeth Ddiwylliannol						
	Mynediad i'r Parc						
	Lle i Anadlu						
	Allwedd						

Sensitifeddu allweddol

Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd	Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd
Ynys a morlin gwledig anghysbell, heb eu difetha, sy'n bwysig ar gyfer gwarchod natur ar yr ynys ac yn y môr a diddordeb daearegol.	Defnydd amaethyddol dwysach. Graddfa fawr y golygfeydd.

<p>Cymeriad hanesyddol yr ardal a natur agored y dirwedd ddaearol.</p> <p>Pwyntiau ffocws y pentiroedd a'r ynysoedd.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.</p>	
---	--